**Cyfarfod Pwyllgor Bwrdd y BBC yng Nghymru**

BBC Caerdydd

**COFNODION**

4ydd Mawrth 2026

**EITEMAU BUSNES**

1. Cyflwyniad, cofnodion Pwyllgor blaenorol Cymru
2. Etholiadau a Newyddion
3. Cyfarwyddwr, adroddiad BBC Cymru
4. Cyllideb a Chyllid
5. Adroddiad ar y Farchnad
6. Cyfarwyddwr, Adroddiad y Cenhedloedd
7. Cynulleidfaoedd
8. Unrhyw fater arall a chloi

**YN BRESENNOL**

*Aelodau:*

- Michael Plaut, Cyfarwyddwr Anweithredol (Aelod Cymru) (Cadeirydd)
- Michael Smyth, Cyfarwyddwr Anweithredol
- Rhuanedd Richards, Cyfarwyddwr Dros Dro, Cenhedloedd y BBC
- Garmon Rhys, Cyfarwyddwr Dros Dro BBC Cymru
- Rhys Evans, Pennaeth Materion Corfforaethol a Pholisi Cyhoeddus, BBC Cymru

*Gyda:*

- Samantha Sing — Cyfarwyddwr Cyllid
- Ric Bailey — Prif Gynghorydd, Gwleidyddiaeth *(eitem 2)*
- Delyth Isaac — Rheolydd Newyddion, Cymru *(eitem 2)*
- Nia Morgan — Uwch Bartner Busnes Cyllid *(eitem 4)*
- Rebecca Davis — Pennaeth Ymchwil Cynulleidfaoedd *(eitem 7)*

- Mark Grinnell — Arweinydd Gweithredol, Cenhedloedd y BBC (ysgrifennydd)

*Ymddiheuriadau:*

- Michael Jochnowitz   Golygydd Comisiynu Ffeithiol

**COFNODION PWYLLGOR BBC CYMRU**

**4ydd Mawrth 2026**

**1. Cyflwyniad, cofnodion Pwyllgor blaenorol Cymru**

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r Pwyllgor a nododd ymddiheuriad gan y Golygydd Cynnwys heb ei Sgriptio.

1.2 Cafodd Cofnodion Pwyllgor blaenorol Cymru a gynhaliwyd ym Mangor ar 6ed Tachwedd 2025 eu cymeradwyo ac nid oedd gwrthdaro buddianau.

1.3 Byddai'r eitemau ar y strategaeth greadigol a Cherddorfa Genedlaethol Cymru yn cael eu trafod mewn Pwyllgor yn y dyfodol.

**2. Adroddiad y Cyfarwyddwr**

2.1 Nododd y Pwyllgor y cynnydd gyda lansio sianeli peilot gan BBC Cymru Wales ar YouTube. Mae ymateb cychwynnol y gynulleidfa wedi bod yn gadarnhaol. Mae cynlluniau pellach yn cynnwys cynyddu'r portread o Gymru a denu siaradwyr Cymraeg ifanc at y cynnwys.

2.2 Nododd y Cyfarwyddwr gynlluniau peilot twf ieuenctid llwyddiannus sydd wedi cyflawni effaith Newyddion.

2.3 Mae dau beilot newydd Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol wedi cael eu cynnal yn BBC Cymru.

2.4 Nododd y Pwyllgor y cynnydd ar y cynlluniau 'model prynu' gyda'r Cenhedloedd a chomisiynu genres yn gweithredu fel un gydag un strategaeth ar gyfer y DU gyfan. Ymgysylltir â chydweithwyr yn y diwydiant am roi'r cynlluniau ar waith.

2.5 Nododd y Pwyllgor gynlluniau ar gyfer tymor newydd Casualty *a* fyddai'n cael ei wneud yng Nghymru ac yn y cynyddu'r portread o Gymru.

2.6 Nododd y Pwyllgor uchafbwyntiau golygyddol a chynnwys diweddar gan gynnwys, *Mr Burton, Truth about, Rapture, Witch Farm, Tenby Murders, Better Later* (comedi gan Ruth Jones a Steve Speirs), *Mammoth* a phodlediad newydd o'r enw *Anglesey Vampire Killer* ar BBC Sounds

2.7 Byddai prosiect o allbwn fideo a cherddorfaol i nodi 60 mlynedd ers trychineb Aberfan.

2.8 Roedd tîm Gweithrediadau BBC Cymru wedi gweithio gyda Chwaraeon y Rhwydwaith i roi sylw i Bencampwriaeth y Chwe Gwlad, sydd wedi arwain at berthynas

waith gadarnhaol dros ben.  Ymchwilir i gyfleoedd gwaith yn y dyfodol, gan gynnwys rhoi sylw i Gwpan FA Lloegr.

2.19 Cynhaliwyd rhaglen o ymgysylltu â rhanddeiliaid ers y Pwyllgor blaenorol, ac roedd tîm arwain BBC Cymru a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol wedi bod mewn gwrandawiad yn y Senedd a byddent yn darparu rhagor o wybodaeth ysgrifenedig.

3. Diweddariad Etholiadau a Newyddion

3.1 Nododd y Pwyllgor gynlluniau gan BBC Cymru a'r sylw gan y BBC yn ehangach i etholiadau Cymru.  Roedd y rhain yn cynnwys cyrraedd pob etholaeth drwy gydol yr ymgyrch, cyfres o ddadleuon byw gyda chynulleidfa i 'holi'r arweinydd', *BBC Question Time* yng Nghymru, Dadleuon yr Arweinwyr ar gyfer S4C a thudalennau byw sydd wedi'u hanelu at ymgysylltu â chynulleidfaoedd iau.

3.2 Trafododd y Pwyllgor ynganiad etholaethau newydd Cymru a fyddai'n cael sylw mewn adrodd ar yr etholiad.

3.3 Nododd y Pwyllgor gynlluniau ar gyfer Darllediadau Etholiadol y Pleidiau ar y BBC.

3.4 Nododd y Prif Gynghorydd, Gwleidyddiaeth y cynlluniau ar gyfer dadleuon 'Holi'r Arweinydd' a sicrhau cydbwysedd teg wrth ddewis aelodau o'r gynulleidfa.

3.5 Bydd canllawiau etholiad drafft yn cael eu cyflwyno i'r EGSC ac yna'n cael eu cyhoeddi.

3.6 O ran adroddiadau, mae cyfnod yr Etholiad ar gyfer y BBC cyfan yn dechrau'n ffurfiol ar 30ain Mawrth (sef pryd mae'n dechrau'n gyfreithiol yn Lloegr).

3.7 Byddai dwy sesiwn briffio i staff newyddiadurol ar weithio gyda Chanllawiau Etholiadau'r BBC yng Nghymru.

**4. Cyllideb a Chyllid**

4.1 Nododd y Pwyllgor gyd-destun ariannol ehangach cynlluniau arbedion yn y BBC gan nodi'r meysydd sy'n cael eu hystyried yn nhîm arwain BBC Cymru a'r egwyddorion a ddilynir wrth wneud unrhyw benderfyniad.  I Gymru ac i adran y Cenhedloedd byddai'r rhain yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Gweithredol ac i'r Bwrdd i'w cadarnhau.

4.2 Nododd y Pwyllgor y ffigurau ariannol sy'n ymwneud â pherfformiad BBC Cymru yn y chwarter blaenorol.

**5. Adroddiad ar y Farchnad**

5.1 Nododd y Pwyllgor y papur Adroddiad ar y Farchnad.

5.2 Mae gwaith adnewyddu'n mynd rhagddo i drwsio to Neuadd Dewi Sant, cartref parhaol Cerddorfa Genedlaethol Cymru. Mae'r gwaith atgyweirio disgwyliedig yn debygol o gael ei gwblhau yn 2027.

5.3 Mae disgwyl i Bapur Gwyrdd y Siarter gael ei gyhoeddi cyn diwedd mis Mawrth.

**6. Cyfarwyddwr, Adroddiad y Cenhedloedd**

6.1 Nododd y Cyfarwyddwr y gwaith ar y strategaeth a chynllunio'r gyllideb sydd wedi cael ei wneud gan yr adran.

6.2 Nodwyd cyfraniad y Cenhedloedd at Gynllun Blynyddol y BBC.

6.3 Cyhoeddi'r adolygiad thematig diweddaraf o bortread a chynrychiolaeth, mae camau gweithredu'n cael eu rhoi ar waith yn adran Cynnwys y BBC.

6.4 Mae recriwtio Arweinydd Gweithredol newydd yn mynd rhagddo er mwyn cefnogi llywodraethu Pwyllgorau'r Cenhedloedd.

6.5 Nododd y Pwyllgor y gwaith ar y cynlluniau Chwaraeon yng Nghymru a diolchodd y Cadeirydd i'r tîm am eu gwaith caled.

**7. Cynulleidfaoedd**

7.1 Adolygodd y Pwyllgor y ffigurau cynulleidfaoedd diweddaraf sy'n ymwneud â Chymru gan nodi bod y teitlau o'r Cenhedloedd sy'n perfformio orau yn dod o Gymru.

**8. Unrhyw fater arall**

8.1 Diolchodd y Cadeirydd i aelodau'r Pwyllgor ac i bawb a oedd wedi cyfrannu at y cyfarfod.

8.2 Doedd dim materion eraill yn codi.

Daeth y cyfarfod i ben.